

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 6ed o Ionawr 2025 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones (Cadeirydd), Eirian Howells, Dyfed Davies, Alyson Harries, Derrick Harries, Ambrose Lewis, Arwyn Jones & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Linda Davies, Ann Sillars & John Phillips
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Dymunodd Andrew Jones Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolchodd iddynt am fynychu ar noson mor oer.
3. **Datgan Buddiannau:**
Byddai'r Clerc y gadael y cyfarfod pan byddai cyflog y clerc yn cael ei drafod.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 4ydd o Dachwedd 2024 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5. Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r Cyfreithiwr parthed ym heol yn Lleine ond wedi cael ymateb na fyddent yn medru delio gyda'r matter, felly roedd y clerc wedi gofyn i'r Cynghorwyr am argymhellion am gyfreithwir arall. Mi'r oedd y clerc wedi cysylltu gyda'r ddau enw cafodd eu argymhell. Cytunwyd i gysylltu gyda Chyfreithwyr Red Kite am amcan pris.
- Roedd y coed o'r Ymddiriedolaeth Coedwigaeth wedi cael eu plannu ar y cloddiau yn Rhoscrugebolion.

6. Gohebiaeth

~~a.~~ Roedd y Clerc ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi derbyn ebost parthed problemau roedd lorïau arctig yn cael i groesi pont Penybont pan yn teithio o Talog i Groesffordd. Trafodwyd y mater a chytunwyd i ofyn y Cyngor Sir a oedd posib rhoi arwydd ger Capel Bethania yn nodi fod pont cul ac yn anaddas argyfer lorïau artig.

b. Roedd yr ebyst parthed heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i'r Cynghorwyr.

c. Y Swm Priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26 oedd £11.10 l bob etholwr.

ch. Roedd Sefydliad y Merched Trelech wedi danfon dyddiadau i'r dyddiadur ac roeddent wedi cael eu cofnodi ar ddyddiadur gwefan y Cyngor Cymuned.

d. Roedd Un Llais Cymru wedi danfon 'Community and Town Councils Digital Guidance' ar Prynnyddau a defnydd o ebyst. Roedd y Clerc wedi bod trwyddynt ac nid oedd mater i'w nodi.

dd. Roedd Canolfan Alma wedi gadael rhestr o ddigwyddiadau am y flwyddyn l ddod i'w ychwanegu l ddyddiadur y wefan. Byddai'r clerc yn gwneud hyn.

e. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon anfoneb am y goleuadau newydd a oedd i'w dalu dros saith mlynedd. Cytunwyd i dalu'r £333.60.

f. Dim Ceisiaudau Cynllunio

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £483.79.

Cafodd taflen Cyllideb v Gwariant hyd 31/12/24 ei ddosbarthu. Fe'i drafodwyd a'i dderbyniwyd.

Roedd Un Llais Cymru wedi dosbarthu Rheolau Ariannol Newydd. Roedd y clerc wedi eu addasu i fod yn berthnasol i Gyngor Cymuned Trelech. Cafodd y Rheolau Newydd eu mabwysiadu.

8. Cyllideb 2025-26 yn cynnwys Praesept, Cyflog y Clerc a cytundeb cyflogaeth newydd.

Dosbarhodd y clerc cyllideb arfaethedig am 2025-26 ac fe'i drafodwyd.

Gadawodd y clerc y cyfarfod tra bod Cyflog y Clerc yn cael ei drafod.

Cytunodd y Cynghorywr godi cyflog y clerc i £7000 y flwyddyn.

Addaswyd y Gyllideb arfaethedig yn unol a hyn ac fe'i dderbyniwyd.

Cytunwyd i gadw'r praesept yn ddim.

Roedd angen cytundeb cyflogaeth Newydd yn unol a argymhelliad Archwilwyr Cymru. Cafodd cytundeb Newydd ei dderbyn a'i lofnodi gan y Cadeirydd ac y Clerc.

9. Unrhyw Fater Arall

- Adroddwyd pryderon i'r Cynghorydd Sir Jean Lewis am lifogydd ar yr heol ger Treparcu, erydiad tir ar y rhiw o Glaspant i Dinas, a chais am fin halen ger Eithindudon Isaf oherwydd y cyfanswm o ddŵr a oedd yn rhewi ar y ddau dro.
- Nodwyd Andrew Jones fod yr heol o Groesffordd, trwy Penybont ac i Talog a Bwlchnewydd wedi cael ei ail-awdurdodi i'w haenu yn dilyn ceisiaudau di-ri o'r cyghoedd.
- Gofynnodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis i bawb i gwblhau'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb Ar-lein ar gyfer 2025-26 i'r Cyngor Sir.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.05yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Fawrth 2025.